# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 25
14/09/20

## Y deg gorchymyn

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

*Tra roeddent yn yr anialwch, rhoddodd Duw orchmynion ar dabledu maen i Moses er mwyn helpu'r Israeliaid i fyw yn y ffordd orau'n bosibl.*

## Fersiwn Beibl.net



A dyma Duw yn dweud fel yma:
"Fi ydy'r ARGLWYDD, eich Duw chi. Fi wnaeth eich achub chi o wlad yr Aifft, lle roeddech chi'n gaethweision. Does dim duwiau eraill i fod gen ti, dim ond fi.
Paid cerfio eilun i'w addoli – dim byd sy'n edrych fel unrhyw aderyn, anifail na physgodyn. Paid plygu i lawr a'u haddoli nhw. Dw i, yr ARGLWYDD dy Dduw di, yn Dduw eiddigeddus. Dw i'n cosbi pechodau'r rhieni sy'n fy nghasáu i, ac mae'r canlyniadau'n gadael eu hôl ar y plant am dair i bedair cenhedlaeth. Ond dw i'n dangos cariad di-droi'n-ôl am fil o genedlaethau at y rhai sy'n fy ngharu i ac yn gwneud beth dw i'n ddweud.
Paid camddefnyddio enw'r ARGLWYDD dy Dduw. Fydda i ddim yn gadael i rywun sy'n camddefnyddio fy enw ddianc rhag cael ei gosbi.
Cofia gadw'r dydd Saboth yn sbesial. Mae'n ddiwrnod cysegredig, gwahanol i'r lleill. Gelli weithio ar y chwe diwrnod arall, a gwneud popeth sydd angen ei wneud. Mae'r seithfed diwrnod i'w gadw yn Saboth i'r ARGLWYDD. Does neb i fod i weithio ar y diwrnod yma – ti na dy feibion a dy ferched, dy weision na dy forynion chwaith; dim hyd yn oed dy anifeiliaid nac unrhyw fewnfudwr sy'n aros gyda ti. Mewn chwe diwrnod roedd yr ARGLWYDD wedi creu y bydysawd, y ddaear, y môr a phopeth sydd ynddyn nhw; wedyn dyma fe'n gorffwys ar y seithfed diwrnod. Dyna pam wnaeth Duw fendithio'r dydd Saboth, a'i osod ar wahân, yn ddiwrnod wedi'i gysegru.
Rhaid i ti barchu dy dad a dy fam, a byddi'n byw yn hir yn y wlad mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn ei rhoi i ti.
Paid llofruddio.
Paid godinebu.
Paid dwyn.
Paid rhoi tystiolaeth ffals yn erbyn rhywun.
Paid chwennych tŷ rhywun arall. Paid chwennych ei wraig, na'i was, na'i forwyn, na'i darw, na'i asyn, na dim byd sydd gan rywun arall."

*Exodus 20:1-17 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Rhoddodd Duw ddeg gorchymyn i Moses eu rhoi i bobl Israel i'w ddilyn.
Roedd y bedair rheol gyntaf yn dangos i'r bobl y ffordd iawn i ymddwyn tuag at Dduw:

- Peidiwch addoli neb ond Duw, dim ond un Duw sydd
- Peidiwch addoli pethau eraill
- Paidiwch defnyddio enw Duw yn anghywir
- Cadwch un diwrnod yn arbennig fel Saboth i Dduw



Roedd gweddill y rheolau yn sôn am garu eraill:

- Parchwch eich tad a'ch mam
- Peidiwch â lladd
- Byddwch yn ffyddlon I'ch gŵr neu'ch gwraig
- Peidiwch â dwyn
- Peidiwch â dweud celwydd
- Peidiwch0 â bod eisiau pethau pobl eraill

Roedd y deg gorchymyn hyn yn mynd i helpu pobl Dduw fyw'n hapus ac yn dda.

# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:




1. Pam wyt ti'n meddwl fod angen rheolau?
2. Beth ydy rheolau'ch tŷ chi?
3. Pam wyt ti'n meddwl fod Duw wedi rhoi'r deg rheol i'w bobl?
4. Pa un o reolau Duw sy'n bwysig i ti?

# Stori i'w lliwio

## Y 10 Gorchymyn

### Exodus 20

Lluniau gan Richard Gunther
(Defnyddiwyd â chaniatâd)



Wnaeth Moses gyfarfod â Duw ar Fynydd Sinai a rhoddodd Duw ddeg gorchymyn i'r Israeliaid er mwyn eu helpu i fyw'n dda.



1.Fi ydy eich Duw felly rhowch fi'n gyntaf yn eich bywyd.



2.Peidiwch ag addoli unrhyw beth, dim ond fi.




3.Byddwch yn ofalus sut rydych chi'n defnyddio fy enw.




4.Cadwch un diwrnod yr wythnos yn arbennig ar gyfer fy addoli i a gorffwyso.



5.Carwch a pharchwch eich rhieni.



6.Peidiwch byth â brifo neb.



7.Byddwch yn ffyddlon i'r person rydych wedi ei briodi.



8.Peidiwch â chymryd unrhyw beth sydd ddim yn eiddo i chi.



9.Peidiwch â dweud celwydd am bobl eraill.



10.Peidiwch â bod yn genfigennus o'r pethau sydd gan bobl eraill.




# Gweddi fer

O Dduw, rwyt Ti mor arbennig. Diolch am roi rheolau i ni i’n helpu i fyw yn hapus gyda’n gilydd. Plîs maddau i ni pan fyddwn ni’n torri dy reolau Di ac yn gwneud drwg i bobl eraill. Plîs helpa ni i dy barchu Di a pharchu’n gilydd.
Amen

# Posau

Helpa Moses i gyrraedd y tabledi cywir gyda gorchmynion Duw arnynt.




Defnyddia'r cod i ddod o hyd i'r adnod dysgu.

**Cod:**
- ➪ = a
- ➫ = c
- ↑ = ch
- ♎ = d
- ⇦ = dd
- ♏ = e
- → = g
- ♒ = h
- ♓ = i
- ■ = n
- ⇕ = o
- ❒ = r
- ◆ = u
- ▷ = w
- ◢ = y

→▷■♏▷↑ ◢■ ◆■♓⇕■ f♏l m➪♏'❒

➪❒→l▷◢⇦ ♏♓↑ ♎◆▷ ◢■

⇦▷♏◆♎. P♏♓♎♓▷↑ ➫❒▷◢♎❒⇕

⇕⇦♓ ▷❒t♒ ♒◢■■◢ ⇕ →▷bl.

♎♏◆t♏❒⇕■⇕m♓◆m 5:32

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | G | O | A | RH | E | O | L | A | U | R | P |
| M | R | CH | DD | Y | M | Y | N | Y | W | D | A |
| O | Ŵ | G | O | I | TH | I | E | W | G | A | R |
| S | G | O | L | D | G | I | A | R | W | G | CH |
| E | W | R | I | W | U | C | A | FF | R | I | U |
| S | U | FF | R | B | Y | W | Y | D | A | D | A |
| I | A | W | I | E | DD | DD | E | S | N | U | G |
| N | I | Y | W | Y | L | G | W | U | D | A | RH |
| E | S | S | W | O | C | O | F | I | O | A | P |
| I | I | L | N | DD | U | F | U | R | I | E | A |
| RH | E | N | W | D | R | D | W | D | U | W | I |
| C | A | R | I | A | D | O | N | R | W | I | D |

ADDOLI
ARGLWYDD
BYWYD
CARIAD
CELWYDD
COFIO
DEG
DIWRNOD
DUW
DWYN
EISIAU
ENW
FFYDDLON
GORFFWYS
GWEITHIO
GŴR
GWRAIG
GWRANDO
MOSES
PAID
PARCHU
RHAID
RHEOLAU
RHIENI
UFUDD

# Sialens

Mae 10 rheol Duw yn dweud fod angen i ni barchu Duw a pharchu'n gilydd.

Beth am wneud dy orau'r wythnos hon i barchu pobl eraill trwy wneud y pethau ar y siart.

Tynna lun wyneb hapus yn y bocsys i ddangos dy fod wedi eu gwneud.



## Fy siart parchu pawb

Enw: ____________

| Fy llofft | Sul | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener | Sadwrn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadw fy mhethau'n dwt | | | | | | | |
| Cadw fy nillad | | | | | | | |
| Gwneud fy ngwely | | | | | | | |
| **Ysgol** | | | | | | | |
| Barod i fynd i'r ysgol ar amser | | | | | | | |
| Bag ysgol yn barod | | | | | | | |
| Cofio golchi nwylo yn iawn | | | | | | | |
| **Fy nheulu** | | | | | | | |
| Helpu aelod o fy nheulu | | | | | | | |
| Golchi llestri neu glirio'r bwrdd | | | | | | | |
| Cadw fy nheganau | | | | | | | |
| **Fi fy hun** | | | | | | | |
| Glanhau fy nannedd | | | | | | | |
| Brwsio neu gribo fy ngwallt | | | | | | | |
| Cymryd bath neu gawod | | | | | | | |

# Gweddi Greadigol

## Swigod gweddi

Mae Duw yn ein caru ni yn fawr iawn, iawn.
Rydyn ni'n gallu dweud popeth wrth Dduw.
Rydyn ni'n gallu gofyn iddo'n helpu os ydan ni'n poeni am unrhyw beth.

**Bydd angen:** Potyn swigod

- **Beth i'w wneud:**
- Meddylia am rywbeth fuasai'n well gen ti y buaset ti heb ei wneud, neu rywbeth wyt ti'n poeni amdano.
- Dyweda wrth Dduw am beth wyt ti'n poeni. Gelli di ei ddweud yn dy ben.
- Gofynna i Dduw dy helpu ac iddo faddau i ti.
- Chwytha swigod  a gwylia nhw'n hedfan i ffwrdd.
- Meddylia am Dduw yn cymryd y pethau rwyt ti'n poeni amdanyn nhw ac yn dy ollwng yn rhydd, fel y mae'r swigod yn hedfan i ffwrdd.






# Dolenni



Fideo o'r stori  https://youtu.be/xMcO32cSrJE

Fideo o gân yr wythnos  https://youtu.be/w73NkQT5k_g



Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=aX28nAB4S7A

## Llyfrnod

Torra'r llyfrnod allan ac yna ei lliwio. Bydd yn d'atgoffa am reolau Duw.

### Y 10 Gorchymyn

1.Fi ydy eich Duw felly rhowch fi'n gyntaf yn eich bywyd.

2.Peidiwch ag addoli unrhyw beth, dim ond fi.

3.Byddwch yn ofalus sut rydych chi'n defnyddio fy enw.

4.Cadwch un diwrnod yr wythnos yn arbennig ar gyfer fy addoli i a gorffwyso.

5.Carwch a pharchwch eich rhieni.

6.Peidiwch byth â brifo neb.

7.Byddwch yn ffyddlon i'r person rydych wedi ei briodi.

8.Peidiwch â chymryd unrhyw beth sydd ddim yn eiddo i chi.

9.Peidiwch â dweud celwydd am bobl eraill.

10.Peidiwch â bod yn genfigennus o'r pethau sydd gan bobl eraill.



# Crefft

## Ffôn Symudol y Deg Gorchymyn






Ar gyfer gwneud Ffôn Symudol y Deg Gorchymyn byddi angen:

Y templed sydd wedi ei argraffu ar waelod y dudalen hon, pinnau ffelt, siswrn, glud, darn o gardfwrdd.






**1.** Lliwia'r ffôn symudol a thorra fo allan.



**2.** Gluda'r 'geiriau' i'r cardfwrdd ac yna torra'r ffôn symudol allan.



**3.** Torra'r sgwariau rhifau ar hyd y llinellau bras



**4.** Plyga'r llinellau toredig sydd ar y sgwariau rhifau.




**5.** Yn ofalus gluda'r 3 stribed ar y ffôn symudol sy'n dweud, "Gludwch yma."




**6.** Gluda'r rhan sydd wedi ei blygu ar y sgwâr rhif i'r stribed sydd wedi ei ludo ar y ffôn symudol. Gwna'n siwr dy fod yn gludo'r rhifau yn y mannau cywir!



Dyna ti. Wedi gorffen! Coda'r rhifau ar dy ffôn symudol er mwyn i ti gael darllen y Deg Gorchymyn.



# Gêm

## Chwilio am y gorchmynion

Torra'r cardiau isod allan. Mae un chwaraewr yn eu cuddio yn y tŷ neu'r ardd ac mae'r llall yn gorfod dod o hyd iddyn nhw a'u rhoi mewn trefn.



Fi ydy eich Duw felly rhowch fi'n gyntaf yn eich bywyd.



Peidiwch ag addoli unrhyw beth, dim ond fi.



Byddwch yn ofalus sut rydych chi'n defnyddio fy enw.



Cadwch un diwrnod yr wythnos yn arbennig ar gyfer fy addoli i a gorffwyso.



Carwch a pharchwch eich rhieni.




Peidwch byth â brifo neb.



Byddwch yn ffyddlon i'r person rydych wedi ei briodi.



Peidiwch â chymryd unrhyw beth sydd ddim yn eiddo i chi.



Peidiwch â dweud celwydd am bobl eraill.



Peidiwch â bod yn genfigennus o'r pethau sydd gan bobl eraill.

# Canu

Cara di'r Arglwydd gyda dy holl galon - Efe a greodd daear a nef.
Paid ti â chael unrhyw dduwiau eraill ond addola neb ond Ef.
Bydd yn ofalus wrth ddefnyddio'i enw - cofia'i barchu - sanctaidd yw.
Paid ag anghofio cymryd diwrnod bob wythnos i orffwys ac addoli Duw.

Cofia barchu dy fam a dy dad - dyma ddymuniad Duw.
Paid ti byth â brifo neb. Bydd di'n ffyddlon tra'r wyt fyw.
Paid ti â chymryd pethau pobl eraill. Na âd gelwyddau o'th geg.
Paid ti â bod eisiau'r pethau sydd gan eraill na dweud, "Dydy o'm yn deg."



Y deg gorchymyn, y deg gorchymyn.
Dyma eiriau Duw
Ac os wyt ti'n eu gwneud
Byddi di'n ei blesio Ef.

*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/w73NkQT5k_g

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon, cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org